


ytafod^o

cylchgrawn cymdeithas yr iaith



TRWY DDULLIAU CHWYLDRO



YN UNIG Y MAE LLWYDDO

ytafod^o

Rhifyn y Dathlu haf 2022

Golygyddion: **Mared Llywelyn**

Carol Jenkins

Dylunio a Chysodi: **Carwyn Hedd**

Gair o'r Gadair
Cofio Cen Llwyd
Rhaid i Bopeth Newid

Mabli Siriol Jones
Helen Greenwood ac eraill
Dafydd Morgan Lewis
Dafydd Iwan
Haf Elgar
Menna Machreth
Joseph Gnagbo

Arwerthiant Dathlu'r 60
'Waldothon'
Holl firi Eisteddfod Tregaron

Cymdeithas Waldo





MABLI JONES

Cadeirydd

Gair o'r gadair

Cymru rydd, Cymru werdd, Cymru Gymraeg – gyda ni mae'r grym i'w chreu!

Ar ôl tair blynedd hir o aros, braf fydd bod 'nôl yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, mewn wythnos sydd hefyd yn nodi 60 mlynedd ers sefydlu Cymdeithas yr Iaith ar y 4ydd o Awst, 1962. Byddwn ni felly'n dathlu ein pen-blwydd drwy gydol yr wythnos gyda rhaglen lawn o ddigwyddiadau ar y maes.

Bydd ein gigs yn cael eu cynnal bob nos yng nghlwb rygbi Tregaron, gyda pherfformiadau gan Adwaith, The Joy Formidable, Mr. Eädyth, Breichiau Hir... a llawer mwy! Ddydd Llun bydd trafodaeth am ein cynllun arloesol Diogelwn, sy'n galluogi pobl i amddiffyn enwau Cymraeg ar dai a thir ar draws y

wlad. Ddydd Mawrth, byddwn yn trafod yr hyn rydym ni'n ei gredu mae'n rhaid ei gynnwys ym Mil Addysg Gymraeg newydd y Llywodraeth i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn golygu bydd pob person ifanc yng Nghymru, o bob cefndir, yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Ddydd Iau, byddwn yn gorymdeithio i stondin y Llywodraeth mewn rali Nid yw Cymru ar Werth i alw am Ddeddf Eiddo. Mae'r ymgyrch wedi gweld sawl llwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys ymrwymïadau gan y Llywodraeth i godi trethi ar ail dai a thwristiaeth, gosod cap ar nifer yr ail dai mewn unrhyw gymuned a

rheoleiddio llety gwyliau. Nawr, mae'n bryd adeiladu ar y camau hyn a symud ymlaen tuag at Ddeddf Eiddo gyflawn fydd yn mynd i'r afael â'r holl broblemau yn y system tai a sicrhau cartref i bawb, a chymunedau cryf Cymraeg.

A ddydd Gwener, fel sy'n draddodiad gennym i'w gyhoeddi bob deng mlynedd, byddwn yn cyhoeddi ein manifest newydd, *Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg – Cymdeithas iaeth i'r 21ain Ganrif*. Yn y ddogfen rydym yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru a'r Gymraeg, gan fynd i'r afael â chwestiynau pwysig ein hoes megis yr argyfwng hinsawdd, annibyniaeth a dyfodol ein cymunedau.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r gwaith a threfnu'r holl ddigwyddiadau yma. Dyma arlwy sy'n dangos holl amrediad gweithgarwch y Gymdeithas – o lunio polisi i drafod syniadau, o brotestio i drefnu digwyddiadau cymdeithasol a gigs. Mae'n amlwg bod y Gymdeithas yn parhau i chwarae rôl bwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru, ac mi rydw i'n bersonol yn falch iawn o fod yn rhan o'r mudiad.

Fel mae ein manifest yn nodi, mae'r Gymraeg a'n cymunedau'n wynebu heriau mawr dros y blyneddau i ddod. O'r sefyllfa yn y farchnad dai, i'r diffygion yn ein system addysg, dirywiad cymunedau i ddiffyg presenoldeb y Gymraeg yn y cyfryngau digidol. Ac yn gefndir i bob dim rydym hefyd

yn wynebu argyfwng hinsawdd sy'n cynrychioli bygythiad i bawb ar y blaned, a'n cymunedau a'r iaith gyda hi.

Ond, mae hefyd yn wir bod y mesurau y gallwn eu cymryd o blaid ein cymunedau a'r iaith hefyd yn rhai fydd yn diogelu ein hamgylchedd. Mae popeth ynghlwm ac mae modd creu Cymru sydd wir yn gynaliadwy ymhob ystyr o'r gair. Dyna beth rydyn ni'n ei olygu gan Gymru rydd, Cymru werdd, Cymru Gymraeg, ac rydyn ni'n galw ar bawb sy'n rhannu'r weledigaeth i ymuno â ni i weithredu ar y cyd i ddychmygu, dyheu a gwireddu'r weledigaeth honno.

Felly, os ydych chi eisiau chwarae rhan, ymaelodwch â Chymdeithas yr Iaith. Ac os ydych chi eisoes yn aelod, meddyliwch beth gallwch chi ei wneud gyda'ch sgiliau chi. Eisiau trefnu gigs neu ddigwyddiadau i ddysgwyr? Datblygu polisi ac ymateb i ymgynghoriadau? Cyfieithu dogfennau, neu ddylunio posterï? Sefyll i fod yn aelod o Senedd genedlaethol y Gymdeithas, neu drefnu protest? Mae croeso i bawb, ac mae gan bawb rywbeth i'w gyfrannu.

Felly, mwynhewch wythnos yr Eisteddfod. Ewch ati i drafod, i gymdeithasu, i greu ac i ddathlu, i gyd yn Gymraeg. A chofiwch, ynom ni y mae'r chwyldro. Dim ond drwy ddod at ein gilydd, i gydweithio a chyd-greu, ymgyrchu a gweithredu, mae creu Cymru well. Y Gymru rydyn ni am ei gweld – Cymru rydd, Cymru werdd, Cymru Gymraeg.

'Mae'r byd a Chymru yn lle tlotach hebddo'

Helen Greenwood

Siwrne unig oedd fy siwrne i lawr i Goleg y Drindod o Ynys Môn ym mis Medi 1973. Doedd neb arall yn mentro mor bell o'n hysgol ni! Yn fuan ar ôl cyrraedd, ymddangosodd poster yn rhywle yn ein gwahodd i gyfarfod Cell Cymdeithas yr Iaith, a gan fy mod i'n aelod ers sawl blwyddyn, mi es draw i weld beth oedd yn digwydd.

Dyna pryd wnes i gwrdd â Cen Llwyd am y tro cyntaf, a dyma ddechrau cyfeillgarwch sydd wedi para bron i 50 mlynedd. Doeddwn i ddim yn berson oedd yn hoffi cadeirio neu arwain cyfarfodydd, OND fe wnaeth Cen fy mhersawdio i ymgymryd â swydd Cadeirydd y Gell. Doeddwn i ddim wedi dysgu gyrru eto ac os oedd angen mynychu cyfarfod Senedd neu gefnogi protest, Cen oedd yr un oedd yno i roi lifft i ni. Roedd yn ymgymryd â'i swydd fel Cadeirydd Rhanbarth Dyfed o ddifrif a mawr yw ein dyled iddo am hynny.

Pan gefais fy ngharcharu dros gyfnod y Nadolig yn 1975, Cen oedd yn ffonio o gwmpas yn annog pobl i anfon gair o gefnogaeth ataf, a Cen wnaeth drefnu i griw ddod yr holl ffordd i gyrion Bryste i'm croesawu allan yn y flwyddyn newydd.

Braf oedd cael dod i adnabod Enfys hefyd, yn ogystal ag ardal Talgarreg. Roedd drws Tŷ'r Ysgol wastad ar agor a'r tŷ yn llawn sgwrsio dwys a direidi di-ben-draw. Nid fi yw'r person cyntaf i ddweud taw dyn ei filltir sgwâr oedd Cen. Dyn egwyddorol, penderfynol oedd â barn bendant am ystod eang o bynciau'r dydd. Ond ar yr un pryd roedd Cen yn berson addfwyn a charedig, bob amser yn barod ei gymwynas ac yn un oedd yn codi gwên mewn unrhyw sefyllfa.

Arwr yn bendant a braint oedd cael ei alw'n ffrind. Mae'r byd, a Chymru yn enwedig, yn lle tlotach hebddo. Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf at Enfys, Heledd, Gwenllïan a'r teulu oll yn eu colled.

Mae mor anodd coelio bod Cen wedi'n gadael ni. Diwedd cyfnod yn wir. Dyn da, addfwyn iawn, ymroddgar iawn oedd Cen. Mae tristwch heno wrth feddwl am y golled.

Steve Eaves

COFIO CEN LLWYD

1952-2022

‘Roedd cadernid Cen fel y dur’

Angharad Tomos

Y clenïaf o'r eithafwyr – arweinydd
ar drin heddychwyr;
Y gwiriaf o'r gwladgarwyr
Sicrach, cadarnach na dur.

Sion Aled

Ac fel mae Sion Aled wedi llwyddo
i fynegi yn yr englyn yma, roedd
cadernid Cen fel y dur. O ddyddiau
ieuenctid, ddaru penderfyniad a
dychwch Cen ddim pallu. Ymgyrchodd
am hanner can mlynedd dros Gymru
well, dros Gymru rydd, Gymraeg lle
roedd heddwch a brawdgarwch yn
teyrnasu. Tu ôl i hyn, roedd ffydd
bersonol gref yn ei gynnal.

‘Y clenïaf o'r eithafwyr’, ac mae hynny
mor wir. Dyna'r atgof cryfaf sydd gan
bobl wedi clywed am ei farwolaeth
ar Fehefin 12fed. Roedd Cen yn ffrind
i bawb, anodd yw meddwl am rywun
mwy addfwyn.

Boed yr ymgyrch dros arwyddion
ffordd, sianel deledu, addysg Gymraeg,
tai i bobl leol, roedd Cen yno. Bu'n
Gadeirydd ar Gymdeithas yr Iaith, yn
Olygydd y Tafod, yn aelod o'r Senedd,
ac yn arwain ymgyrchoedd yn lleol. Yn
ystod yr hanner canrif bron o gyd-
ymgyrchu efo fo, ni welais Cen yn

chwerwi. Hyd yn
oed yn ystod y
blynyddoedd olaf,
yn brwydro salwch
creulon Parkinsons,
roedd yn dal i gynnig
gobaith.

Pan ro'n i'n aros ar eu haelwyd yn
Nhŷ'r Ysgol, Talgarreg, byddwn yn
dod oddi yno wedi fy adfywio. Ro'n
i'n ddibynnol iawn ar Cen o ran
ffynhonnell gobaith. Drwy Cen ac
Enfys y deuthum i adnabod Talgarreg a
Dyffryn Teifi, rhoddodd Cen wasanaeth
maith i Wyl y Cnapan yn ystod yr
wythdegau a'r nawdegau. Roedd o'n
un o sefydlwyr CND Dyffryn Teifi, bu'n
gynghorydd Plaid Cymru, bu'n flaenllaw
efo'r ymgyrch Wrth-Apartheid. Nid
ymgyrchoedd gwahanol oedd y rhain
i Cen, ond ffordd o fyw. Roedd Cen yn
gweld yn glir, roedd ei weithredoedd a'i
fywyd yn dangos ei gonsŷrn mawr a'i
gariad dros ddynoliaeth. Tra roedd o
ar y ddaear hon, gwnaeth be oedd yn
bosibl i helpu ei gyd-ddyn. Un atgof da
gan Dafydd Morgan Lewis oedd yr un o
ymweliad yr Archesgob Desmond Tutu
o Dde Affrica â Chymru ym 1986. Aeth
Cen ato i holi Tutu a fyddai'n arwyddo'r
ddeiseb dros Ddeddf Iaith Newydd, ac
fe wnaeth yn llawen. Dau debyg iawn
i'w gilydd oeddent.



Roedd o'n berson llawen a direidus. Y
llawenydd hwnnw fyddwn ni'n ei gofio
a'i golli yn ystod y misoedd nesaf. Od
iawn fydd y rali nesaf, a sylweddoli
bod Cen – am y tro cyntaf – yn
absennol. Boed ein cydymdeimlad
efo Enfys, Heledd a Gwenllian yn eu
colled fawr, a diolch am gyfraniad
enfawr Cen. Bu'n eithriadol o hael efo'i
amser gan gysegru ei fywyd yn oes
o wasanaeth i'w gymuned, i Gymru, i
Grist.

Roedd Cen yn arwr tawel ac wedi bod
yn gymaint o ysbrydoliaeth i mi a
sawl un arall. Diwedd cyfnod yn wir.

Walis George

Roedd Cen yn rhan o genhedlaeth
allweddol yn hanes ein hunaniaeth fel
cenedl.

Gwyn Edwards

Cawsom sgwrs hir hyfryd ar draeth
Llanrhystud y llynedd. Rwy'n cerdded
yno'n aml ac roedd Cen ac Enfys wedi
taro ar y lle. Fe wnaeth e gymaint o
gyfraniad yn ystod ei fywyd.

Marian Delyth

Oni'n meddwl amdano wrth yrru
drwy Felinfach yn ddiweddar ac yn

ei gofio'n gollwng y teiars yno mewn
protest ffatri gaws tra yn y flwyddyn
gynta'n coleg. Pawb ag atgofion am
gymeriad a hanner.

Branwen Niclas

Gŵr bonheddig ac egwyddorol a phob
tro yn siarad yn ddoeth. Colled i bawb
oedd yn ei adnabod, i'w gymuned ac i
Gymru.

Ifor Glyn

Mae yna seminarau am sut i weithio
yn gymunedol, ac yna mae Cen Llwyd.
Cen oedd yr un a ddangosodd i mi,
gyda gwên, sut roedd modd gofalu'n
genedlaethol ond gweithredu'n lleol – a
weles i neb balchach o'i fro na'i wlad
na Cen. Diolch am fod yn ysbrydoliaeth
oes.

Alun Llwyd

Ar y Sul, am roi sylwedd – yn dawel
Ein diolch diddiwedd,
Yn oes ofn, am leisio hedd
A rhoi'i raen ar wirionedd.

Dylan Iorwerth

Un Cen oedd. Drwy'i acen e – yn ddi-ffael,
treiddiai'i ffydd a'r Pethe,
hithau'r iaith; ers mynd 'sha thre
yn ei eglwys mae gwagle.

Annes Glyn

Cyfrol newydd i ddathlu'r 60 mlwyddiant

Âr Gymdeithas yn dathlu 60 oed eleni, fis Hydref cyhoeddir **Rhaid i Bopeth Newid: Cyfrol i Ddathlu 60 mlwyddiant Cymdeithas yr Iaith** dan olygyddiaeth Dafydd Morgan Lewis gan wasg y Lolfa. Bydd y gyfrol yn edrych yn ôl ar ymgyrchoedd y gorffennol ac yn cloriannu amcanion y Gymdeithas i'r dyfodol drwy lygaid rhai o'r aelodau mwyaf blaenllaw.

Yn ogystal â lluniau trawiadol gan Marian Delyth o'r 60 mlynedd a fu, ceir cyfraniadau gan Gareth ac Eiry Miles, Dafydd Iwan, Ffred Ffransis, Wynfford James, Toni Schiavone, Angharad Tomos, Steve Eaves, Helen Prosser, Lleucu Roberts, Elin Haf Gruffydd Jones, Menna Machreth, Tamsin Davies, Hywel Griffiths, Mabli Siriol Jones, Joseff Gnagbo a Haf Elgar.

Dafydd Morgan Lewis sy'n egluro sut yr aeth ati i gurau'r gyfrol:

Aeth bron i flwyddyn heibio ers i mi dderbyn gwahoddiad i lunio cyfrol fyddai'n dathlu penblwydd Cymdeithas yr Iaith yn 60.

Y teimlad cyntaf a ddaeth oedd fod amser yn hedfan. Oes yna eisoes ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers i ni ddathlu penblwydd y Gymdeithas yn hanner cant?

Fe dderbyniais yr her beth bynnag gan wybod nad oedd gennym gymaint â hynny o amser i gael y gyfrol at ei gilydd.

Penderfynwyd gwahodd cyfraniadau gan rai a fu'n weithgar gyda'r Gymdeithas o'r dechrau gan ganolbwyntio ar dri neu bedwar o bob degawd. Gallent ysgrifennu ysgrif ffeithiol, stori fer neu ddarn o farddoniaeth. Fe fyddai yn y gyfrol hefyd gasgliad helaeth o luniau gan amrywiol ffotograffwyr.

Y gofid mwyaf oedd na fedrwn ofyn i bawb. Ond y gobaith maes o law yw y gwelir cyhoeddi detholiad o'r cyfraniadau hyn ar y we, fel y gall aelodau eraill o'r Gymdeithas ychwanegu eu hatgofion a'u syniadau atynt.

Tra bod yna ryddid i'r cyfranwyr hel atgofion, fe ofynnwyd iddynt hefyd i edrych tua'r dyfodol. Wedi'r cwbl, dyna a wnaeth Saunders Lewis yn 1962 pan draddododd y ddarlith radio 'Tynged yr Iaith'. Yn ôl yn 1962, roedd yna gwtâ ddeugain mlynedd i fynd tan ddiwedd y ganrif ac nid oedd Saunders yn rhagweld dyfodol rhy ddisglair i'r Gymraeg nac i'r ddynoliaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Ond yr her wrth gwrs oedd i ni newid pethau trwy beidio anobeithio, a thrwy

fabwysiadu 'dulliau chwyldro.'

Ymhen deugain mlynedd, fe fyddwn yn dathlu canmlwyddiant darlledu'r ddarlith radio ac fe fydd rhai o gyfranwyr y gyfrol hon o gwmpas i wneud hynny.

Fe newidiodd teitl y gyfrol sawl gwaith yn ystod y flwyddyn cyn i ni benderfynu yn derfynol ar **Rhaid i Bopeth Newid: Cyfrol i ddathlu 60 mlwyddiant Cymdeithas yr Iaith**.

Mae **Rhaid i Bopeth Newid** wedi bod yn un o sloganau'r Gymdeithas ers yr wythdegau, y dyddiau tywyll, ond cyffrous hynny pan oedd Margaret Thatcher yn camlywodraethu dros bawb a phopeth. Erbyn hynny roedd y Gymdeithas wedi sicrhau sawl buddugoliaeth.

Mae arwyddion ffyrdd dwyieithog ac S4C yn dod i'r meddwl yn syth, ond erbyn hyn roedd y frwydr dros ddyfodol y cymunedau Cymraeg yn dod yn fwy ac yn fwy o ofid i ni. Yn anffodus mae'r gofid hwnnw gyda ni o hyd.

Yn y cyfnod Thatcheridd hefyd y dechreuodd y Gymdeithas uniaethu â nifer o ymgyrchoedd nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â dyfodol y Gymraeg. Bu i ni gydweithio gydag CND Cymru a'r Mudiad Heddwch, y Mudiad

Gwrth Apartheid a chefnogi'r glowyr yn Streic Fawr 1984/85. Fe ddaethom i sylweddoli bod y frwydr dros y Gymraeg yn rhan o'r frwydr ehangach dros ryddid a chyfiawnder drwy'r byd.

Felly mae pethau o hyd. Disodlwyd Thatcher gan Brexit (a'r hiliaeth front sy'n rhan o'r 'weledigaeth' dywyll honno). Mae'r problemau achosir gan gynhesu byd-eang a'r angen i fabwysiadu agenda werdd yn rhywbeth y bydd yn rhaid i'r Gymdeithas hithau fynd i'r afael ag o ar fyrder. Wedi'r cwbl, Cymdeithas yr Iaith oedd y mudiad cyntaf i alw am Beintio'r Byd yn Wyrdd! Ond fe fydd y frwydr dros ddyfodol y Gymraeg yn ganolog i'n holl weithgarwch.

Y bwriad yw lansio'r gyfrol **Rhaid i Bopeth Newid** yn y Cyfarfod Cyffredinol ar Hydref 8fed, ac yna trefnu nifer o lansiadau eraill ar hyd a lled Cymru dros yr wythnosau sy'n dilyn.

Cyfarfod Cyffredinol 2022

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol eleni ym Mhontarddulais ddydd Sadwrn, **8 Hydref**. Lansir y gyfrol **Rhaid i Bopeth Newid** yn ystod y penwythnos. Mwy o fanylion i ddilyn, ond cadwch y dyddiad yn rhydd!

Dyma damaid i aros pryd gan rai o'r cyfranwyr eraill:


Synhwyro fod rhywbeth mawr ar droed
Dafydd Iwan

Mi fyddai Cymdeithas yr Iaith wedi dod i fodolaeth hyd yn oed pe na bai Saunders Lewis wedi derbyn gwahoddiad y BBC i draddodi ei ddarlith radio, ond darlith *Tynged yr Iaith* a osododd y cyd-destun ar gyfer sefydlu mudiad radical i ymgyrchu dros y Gymraeg. Roedd unrhyw un oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth ar ddechrau'r chwedegau, os oedd ganddo a chanddi rithyn o ddiddordeb yn y pethe, yn gallu synhwyro fod rhywbeth mawr ar droed. Roedd y teulu Beasley yn Llangennech wedi cynnau'r ffiws, ac yr oedd pobol fel Alwyn D. Rees, Dr. Tudur Jones a'r Athro J. R. Jones yn gefnogwyr ac ysbrydolwyr parod a huawdl, yn ogystal â Saunders ei hun. Os rhywbeth, yr oedd Alwyn Rees fel golygydd *Barn* a Tudur Jones fel colofnydd *Y Cymro* a Gwilym R. fel golygydd *Y Faner* yn gefnogwyr a'u traed yn gadarnach ar y ddaear a'u clust yn nes at y bobol, tra gwisgai Saunders a J. R. glogyn megis proffwydi'r Hen Destament. A hynny sydd i gyfri i raddau pam i Saunders gloffi'n arw wrth broffwydo tranc buan y Gymraeg fel iaith fyw.

Ond onid bodolaeth ac ymgyrchoedd y Gymdeithas a lwyddodd i osgoi gwireddu proffwydoliaeth Saunders

am dranc y Gymraeg erbyn dechrau'r ganrif hon? Ie, i raddau, ond i raddau'n unig. Roedd rhaid newid agwedd meddwl y Cymry - a'r Awdurdodau (gan ddefnyddio'r gair hwnnw am leng o gyrff ac unigolion mewn grym ac awdurdod) - tuag at yr iaith, a dyw hynny ddim yn digwydd heb gythrwfl a chynhyrfu'r dyfroedd. Un ymateb cynnar i ymgyrchoedd mwy ymosodol y Gymdeithas oedd 'Ryden ni'n cytuno â'ch nod, ond yn anghytuno â'ch dulliau', sef yr union ymateb a welir heddiw i weithredoedd Gwrthryfel Difodiant, ond y ffaith syml yw na welwn ni newid agwedd sylweddol heb weithredoedd uniongyrchol, pa mor anghyfforddus bynnag fyddan nhw. Yn ddi-os, mae ymgyrchoedd y Gymdeithas wedi peri i bobol Cymru newid eu hagwedd, ac wedi gorfodi'r pleidiau gwleidyddol i feithrin polisïau o blaid y Gymraeg, ond fel gyda'r argyfwng newid hinsawdd, yr hyn sy'n mynd i ennill y dydd yn y pen draw yw i bobl newid eu ffordd o fyw. Ac yng nghyd-destun yr iaith, dewis ei siarad a'i defnyddio ar bob achlysur posib yw ystyr hynny. A hynny yw'r dasg enfawr sy'n ein hwynebu o hyd.


Llyfrau'r haf gan wasg Y Lolfa!




£7.99



£12.99




£7.99



£9.99



£12.99



£14.99

ylolfa.com



... a llawer mwy!

Llyfrau dros Gymru

Peintio'r Byd yn Wyrdd

Haf Elgar

Trwy fy mhrofiad gyda'r Gymdeithas ces i ddatblygu sgiliau ymgyrchu di-ri, a gwersi pwysig – i gwestiynu, codi llais, herio awdurdod pan fo angen, a chwarae fy rhan yn newid y drefn. Yn wir roedd hi'n ddyletswydd cymdeithasol i fedru gwneud. Felly diolch i'r Gymdeithas, ymgyrchydd fyddai fyth.

Yn ogystal â sgiliau ymgyrchu ymarferol, cefais addysg wleidyddol eang ac eangfrydig – golwg rhyngwladol ar frwydrau ieithyddol a phobloedd dan ormes ledled y byd. Magwyd ynof y pwysigrwydd o seilio daliadau ac ymgyrchoedd ar egwyddorion cadarn megis y dull di-drais, a dealltwriaeth o'r cyd-gysylltiad rhwng dyfodol iaith, cymuned, pŵer a systemau gwleidyddol. Y rhyng-gysylltiad yma yw sail un o sloganau'r Gymdeithas ar hyd y degawdau sef bod yn 'rhaid i bopeth newid' os yw'r Gymraeg i fyw.

A'r pwynt olaf yma adawodd yr ôl dyfnaf, ac efallai mwyaf uniongyrchol ar ym hyn dw i'n ei wneud hyd heddiw.

Mae'n slogan sy'n gofyn am ddadansoddiad sy'n mynd tu hwnt i fater 'statws' swyddogol yr iaith (cyn bwysiced ag yw hynny) i'r ffactorau sydd eu hangen i'r Gymraeg oroesi – bod rhaid cael cyfleoedd gwaith yn lleol, rhywle i fyw, diwylliant a'r amodau economaidd cywir er mwyn i'r Gymraeg fyw. Mae'r dadansoddiad yna yn greiddiol i'r Gymdeithas, ac wedi cadw'r Gymdeithas yn symudiad mor bwerus

ar hyd y degawdau. Ddaw'r frwydr ddim i ben gydag un ddeddf neu ffigurau positif o un cyfrifiad. Mae angen yr 'eco system' gywir i'r Gymraeg, neu unrhyw iaith, fyw a ffynnu, ac mae'r frwydr yna'n barhaus.

Lloffion o'r Gorffennol

Menna Machreth

Hydref 2002

*Canai'r ffôn wrth i mi ddisgwyl ateb.
'Cymdeithas yr iaith.'*

'Helo... Menna yw'n enw i... Menna Machreth...'

Roedd hi wedi cymryd tipyn o blwc i ffonio prif swyddfa'r Gymdeithas. Fe es i i ystafell wely fy rhieni a defnyddio eu landline nhw rhag i neb glywed fy sgwrs.

'Helo Menna...' Yn ffodus roedd y llais yr ochr arall yn swnio r'un mor nerfus â fi.

'Dw i'n ffonio i ddweud ein bod ni am gerdded allan... fory... o'r dosbarthiadau... i brotestio Rhyfel Irac.'

'Diolch am roi gwybod, pa ysgol?'

'Maes-yr-Yrfa, Cwm Gwendraeth.'

'Diolch, ysgol arall i'w rhoi ar y rhestr. Fydd na gannoedd yn cerdded allan o'u dosbarthiadau fory – mae'n siŵr o ddenu sylw. Hwyl i chi fory.'

'Diolch.' Distawodd y ffôn. Doedd dim troi'n ôl nawr.

Rwy'n chwerthin wrth gofio'r alwad ffôn honno a'm sgwrs gyntaf gyda'r annwyl Dafydd Morgan Lewis. Dyddiau hyn, byddai sawl dewis sut i gysylltu dros y we i hysbysu'r Gymdeithas eich bod yn dymuno ymuno mewn protest, ond roedd rhywbeth arwyddocaol yn digwydd wrth i fi ymroi ar lafar i wneud fy ngweithred wleidyddol gyntaf erioed. Yn anffodus, methiant llwyr fu'r brotest ond roedd gwahoddiad y Gymdeithas i fi fel disgybl ysgol ddangos fy ochr ynglŷn â'r rhyfel yn Irac wedi deffro rhywbeth ynddof – wedi rhoi dewis i fi weithredu neu aros yn dawel. Ers gweld y tyrau'n disgyn, gwyddwn fod yr ymateb dialgar yn sicr o ddod â mwy o ddistryw yn hytrach na datrysiadau.

Sut des i yn siaradwr Cymraeg?

Joseph Gnagbo

Ar y 15 o Chwefror 2018, ro'n i mewn hostel i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gofyn i bobl ble medrwn i ddysgu Cymraeg. Ro'n i wedi cael fy symud gan y Swyddfa Gartref o Lundain i Gaerdydd y diwrnod cynt ac yn ystod brecwast, ro'n i wedi clywed gan rywun bod iaith gyda Cymru, ei hiaith ei hun. Roedd pawb yn y lobi'n dweud 'Sdim pwynt iti ddysgu Cymraeg, gwell i ti ddysgu Saesneg' neu 'Mae pawb yn siarad Saesneg yma, yn y gwaith, mewn siopau ac ar y stryd'. Neu fe fydden

nhw'n dweud, 'Dyw'r Gymraeg ddim yn cael ei siarad y tu allan i Gymru.' Yna ar y diwedd dyma nhw'n dweud 'Cer i Migrant Help i holi'.

Cafodd y swyddog yn Migrant Help sioc, mae'n amlwg, i weld ceisiwr lloches oedd eisiau dysgu Cymraeg. Beth bynnag, fe gyfeiriodd e fi at Ganolfan Oasis lle cwrddais i â Matt Spry. Roedd e newydd ddechrau cwrs blasu Cymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd Matt a'r cwrs yn rhoi llygedyn o obaith mewn byd lle mai'r arysgrifau a'r arwyddion ar y stryd oedd yr unig brofiad Cymraeg i fi.

Mae Rhaid i bopeth newid: Cyfrol i ddathlu 60 mlwyddiant Cymdeithas yr iaith gan Dafydd Morgan Lewis (gol.) yn cael ei chyhoeddi gan wasg y Lolfa.



Arwerthiant y Gymdeithas haf 2023!

Mae Cymdeithas yr Iaith yn bwriadu cynnal Ocsiwn Arbennig ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst 2023 fel rhan o ddathliadau'r mudiad yn 60 oed.

Byddwn yn dechrau casglu eitemau ar Faes Eisteddfod Tregaron eleni. Oes gennych chi eitemau y gellir eu cyflwyno ar gyfer yr arwerthiant arbennig yma?

Beth am:

- bosteri ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau penodol?
- posteri gigs y Gymdeithas?
- darn o gelf neu gerdd yn ymwneud â'r frwydr dros yr iaith?
- llyfr neu record wedi'u llofnodi?
- crys-T neu hyd yn oed faner o un o'r ymgyrchoedd?


Galwch draw i uned y Gymdeithas yn ystod yr Eisteddfod, neu cysylltwch â Carol ar 01970 624501 os ydych yn meddwl bod gennych ryw beth diddorol i'w gynniig.

I ysgogi syniadau ar gyfer arwerthiant 2023, mi fyddwn yn cynnal arwerthiant cudd yn ystod Eisteddfod Tregaron ar gyfer y darlun arbennig hwn gan Ogwyn Davies, yr arlunydd o Drebanws a fu'n


byw ac yn gweithio yn Nhregaron.

Os ydych yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol, gallwch alw yn y stondin i weld y darn, a rhoi eich cynniig mewn amlen. Os nad ydych yn mynychu'r Eisteddfod, mae croeso i chi anfon eich cynniig mewn ebost i post@cymdeithas.cymru, neu ei bostio i Swyddfa Cymdeithas yr Iaith, Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth SY23 1JH. Rhaid i gynniig ebost neu post gyrraedd cyn 31 Gorffennaf. Ni fyddwn yn derbyn cynniig llai na £300.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.



Deddf Iaith Newydd, Ogwyn Davies - Darn o gelf cyfryngau cymysg yn mesur 102x76.5cm



Cymdeithas Waldo ddim yn wahanol.

Amcanion Cymdeithas Waldo:

- i) Diogelu'r cof am waith a bywyd Waldo Williams a ystyri'r yn un o lenorion mwyaf dylanwadol Cymru ac yn fardd o statws rhyngwladol;
- ii) Hyrwyddo cyfraniad Waldo Williams at lŷn a diwylliant Cymru trwy ddechongli a chreu ymwybyddiaeth ddyfnach o'i waith yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Cymdeithas Waldo'n trefnu 'Waldothon' gyda'r bwriad o godi arian drwy noddi darlenniadau o'i holl gerddi.

Mae 317 o gerddi Cymraeg a 27 o gerddi Saesneg yng nghyfrol Alan Llwyd a Robert Rhys, Cerddi Waldo 1922-1970 (Gwasg Gomer: 2014) sy'n gwneud cyfanswm o 344 i gyd. Bydd ugain o bobol ar draws Cymru yn arwain grwpiau i ddarllen tua 20 o gerddi Waldo ac mae gwahoddiad i bobl ledled y wlad noddi'r darlenniadau fesul £5 y gerdd.

WALDOTHON

Mae ar bob mudiad, elusen, clwb a chymdeithas angen arian i barhau â'r gwaith da maen nhw'n ei wneud, a dydy

Meddai'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd:

"Mae boddhad i'w gael bob amser wrth droi at gerddi Waldo. Pleser ychwanegol yw eu darllen yn uchel, gan brofi'r rhythmau pwerus a sain esmwyth y geiriau. Ar ben hynny, bydd yr achlysur yn codi arian i gadw'r cof am y bardd yn agos at glust ei wlad. Bydd yn brofiad i'w werthfawrogi ar sawl cyftri!"

Ychwanegodd Emyr Llywelyn, un o lywyddion anrhydeddus Cymdeithas Waldo:

"Diolch i Mererid Hopwood ac Alun Ifans, Maenclochog, am drefnu 'Waldothon' nodedig gyda deunaw o bobl ledled Cymru yn darllen cerddi Waldo ar y 1af o Hydref. At bw y trown pan mae'r 'byd yn chwâl' am ysbrydoliaeth? At bw ond Waldo - â'i weledigaeth am frawdgarwch dyn, am heddwch a phwysigrwydd iaith a bro."

Cynhelir y 'Waldothon' am 10 o'r gloch y bore, ddydd Sadwrn, Hydref y 1af, 2022. Mae hyn ddiwrnod ar ôl 'Diwrnod Waldo' sef Medi 30ain.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun Ifans neu Mererid Hopwood.

Alun Ifans: alunifans@hotmail.com
Mererid Hopwood: m.hopwood336@btinternet.com


Y DECHRAU

'Nôl ar ddechrau'r chwedegau, doedd yr iaith ddim yn rhan o fywyd cyhoeddus o gwbl; doedd dim arwyddion ffyrdd Cymraeg nac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, a doedd dim modd cael dogfennau swyddogol yn Gymraeg.



Yn y pumdegau, gwrthododd teulu'r Beasleys dalu bil treth uniaith Saesneg. Bu Eileen a Trefor gerbron llys 16 o weithiau ac aeth y beiliaid â'u heiddo sawl gwaith, ond fe dalodd eu hymgyrch ffordd. O 1960 ymlaen, roedd eu biliau treth yn ddwyieithog.

Yn y cyfnod yma, roedd chwyldro ar droed ar draws y byd a mwy a mwy o bobl yn sefyll dros eu hawliau - o hawliau pobl hoyw i Martin Luther King a'r frwydr dros hawliau sifil yn yr Unol Daleithiau.




Ym mis Chwefror 1962, darlledwyd darlith Saunders Lewis, Tynged yr iaith; darlith oedd yn rhybuddio bod perygl i barhad y Gymraeg. Yn ôl Saunders Lewis: **"trwy ddulliau chwyldro yn unig y mae llwyddo"**.

Bu'r ddarlith yn ysbrydoliaeth i lawer o bobl, a sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith rai misoedd wedyn yn ysgol haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais.

Y DYDDIAU CYNNAR

Fe enillwyd rhai consensiynau gan y Llywodraeth yn ystod y chwedegau, gan gynnwys Deddf Iaith 1967 oedd yn rhoi hawliau cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol, ac roedd rhai ffurflenni dwyieithog gan rai cyrff cyhoeddus.



Yn 1973, cynhaliwyd y protestiadau torfol cyntaf - yn Swyddfa Bost Aberystwyth ac ar Bont Trefechan, pan ataliwyd y traffig wrth i ymgyrchwyr eistedd yn y ffordd. Dyma oedd dechrau ymgyrchu tor-cyfraith i Gymdeithas yr Iaith.



YMGYRCHOEDD Y CHWEDEGAU A'R SAITHDEGAU

YR ARWISGO - 1969


Roedd Cymdeithas yr Iaith a'i harweinwyr yn rhan flaenllaw o'r protestiadau yn erbyn arwisgo Charles, mab brenhines Lloegr, yn "Dywyso Cymru".



Fel rhan o'r ymgyrch, cynhaliwyd un o brotestiadau mwyaf Cymdeithas yr Iaith yng Nghaernarfon ar Ddydd Gŵyl Dewi 1969.

ARWYDDION FFYRDD

Un o ymgyrchoedd cyntaf y Gymdeithas oedd yr ymgyrch peintio a difrodi arwyddion ffyrdd uniaith Saesneg ar draws y wlad.



"...nid malu awyr mwyach, ond malu seins yn ni!"
- I'r Gad!, Dafydd Iwan



'Achos yr wyth'

Yn mis Mai 1971, arestiwyd wyth o aelodau Cymdeithas yr Iaith am ddifrodi arwyddion ffyrdd. Daeth torf o 1,500 i Neuadd y Ddinas yn Abertawe i'w cefnogi yn y llys. Arestiwyd rhyw 40 o bobl, a chafodd tua 18 eu carcharu am dros bythefnos am 'darfu ar yr heddwch'.

Arweiniodd yr ymgyrch at sicrhau arwyddion ffyrdd dwyieithog.

YMGYRCHOEDD Y CHWEDEGAU A'R SAITHDEGAU

RADIO A THELEDU

O ddechrau'r saithdegau ymlaen, ymgyrchu dros wasanaeth darlledu radio a theledu Cymraeg oedd y flaenoriaeth.



Roedd rhai protestwyr yn gwrthod prynu trwyddedau teledu, tra bod eraill yn dringo mastiau darlledu ac yn ymyrryd â stiwdios teledu gan dorri ar draws darllediadau byw.




1971-1980: yn ystod yr ymgyrch dros sianel Gymraeg, roedd gweithredu torcyfraith ar ei hanterth. Wynebodd bron i 900 o bobl achosion llys, a charcharwyd 14.



Yn dilyn pwysau cynyddol ar yr awdurdodau darlledu i gynniw gwasanaeth Cymraeg, sefydlwyd Radio Cymru gan y BBC yn 1977.

Roedd addewid ym manifesto'r Ceidwadwyr i sefydlu sianel deledu ar wahân ar gyfer rhaglenni Cymraeg, ond ar ôl ennill yr etholiad yn 1979, cyhoeddodd Llywodraeth Geidwadol Margaret Thatcher na fyddai'n sefydlu'r fath sianel wedi'r cwbl.



Cyhoeddodd Gwynfor Evans y byddai'n ymptydio hyd farwolaeth os na fyddai'r Llywodraeth yn anrhydeddu ei haddeiwid. Gyda'r holl ymgyrchu oedd wedi bod, achosodd y cyhoeddiad gryn gynnwrf ac roedd pwysau enfawr ar Lywodraeth Prydain.

Yn y pen draw, iildiodd y Llywodraeth i'r pwysau a chyhoeddwyd ym mis Medi 1980 y byddai rhaglenni teledu Cymraeg yn cael eu darlledu ar sianel newydd. Lansiodd Sianel Pedwar Cymru (S4C) yn 1982.



WALES4CYMRU

YMLAEN I'R WYTHDEGAU A DIWEDD Y GANRIF

Dyma gyfnod Margaret Thatcher, Rhyfel y Malvinas a Streic y Glowyr - a marwolaeth Bobby Sands.

Roedd y Torïaid yn gwrthod cwrdd â Chymdeithas yr Iaith.

Dechreuwyd ymgyrchoedd dros Ddeddf iaith newydd a Chorff Datblygu Addysg Gymraeg.



DEDDF IAITH 1993

Erbyn diwedd yr wythdegau, roedd yr ymgyrch dros Ddeddf iaith newydd yn magu momentwm. Daeth mil o bobl i wrthdystiad o flaen adeilad y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd yn 1989 ac yn 1990.



Ildiodd Llywodraeth Prydain i'r ymgyrchu, a phasiwyd Deddf iaith 1993.

O hynny allan, roedd disgwyl i sefydliadau cyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac fe grëwyd Bwrdd yr Iaith.



NID YW CYMRU AR WERTH

Yn 1987, cychwynnodd yr ymgyrch dros Ddeddf Eiddo i reoli'r farchnad dai, gyda'r slogan enwog 'Nid yw Cymru ar Werth' - slogan sydd wedi dod yn amlwg sawl gwaith dros y blynyddoedd ers hynny.



Am wythnos gyfan yn haf 1991, bu aelodau'r Gymdeithas yn gwersylla o flaen Llys y Goron yr Wyddgrug yn ystod achos Ilys Branwen Niclas ac Alun Llwyd, oedd wedi torri i mewn i adeiladau'r Swyddfa Gymreig yn Llandrillo-yn-Rhos a difrodi eiddo er mwyn tynnu sylw at yr angen am Ddeddf Eiddo.



YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

DATGANOLI

Yn dilyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 roedd gwleidyddion yn fwy agos at y bobl, a bellach roedd grym gwleidyddol yng Nghymru.

STATWS SWYDDOGOL I'R GYMRAEG

Doedd Deddf iaith 1993 ddim yn mynd yn hanner digon pell, felly fe aeth ymgyrchoedd gweithredu uniongyrchol ymlaen i dargedu'r sector breifat - cwmnïau mawr fel cwmnïau ffôn, archfarchnadoedd a banciau.



Yn 2011, daeth Mesur y Gymraeg i rym. Roedd y Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol ac na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg, yn lle Bwrdd yr Iaith, i osod Safonau ar gyrrff. Mae Cymdeithas yr Iaith yn parhau i ymgyrchu i ehangu'r Safonau er mwyn sicrhau bod mwy o mwy o gyrrff a chwmnïau yn gorfod darparu gwasanaethau Gymraeg.

DYFODOL S4C

Yn 2011, bu protestio yn erbyn y cynlluniau i dorri cyllideb S4C a bwriad Llywodraeth Prydain i drosglwyddo cyfrifoldeb dros ariannu'r sianel i ddwylo'r BBC, a fyddai'n bygwth annibyniaeth S4C.

Ynghyd â ralfau torfol, meddiannwyd sawl stiwdio a difrodwyd swyddfeydd y Ceidwadwyr yng Nghymru.



Aeth Cymdeithas yr Iaith ati hefyd i lansio Sianel 62, er mwyn dangos yr angen am ddarparu cyfoes ac annibynnol, roedd cynnwys yn cael ei ryddhau yn gyson ac yn cael ei greu gan aelodau.

YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Ar y cyd â myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a Bangor, cynyddodd Cymdeithas yr Iaith y pwysau i sefydlu Coleg Cymraeg aml-safle a fyddai'n galluogi myfyrwyr i astudio unrhyw bwnc drwy'r Gymraeg yn y brifysgol.

Yn 2011, sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Ers hynny, mae Cymdeithas yr Iaith wedi ymgychu i ehangu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2011

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 gwmp yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a chwymp sylweddol mewn sawl sir.

Cynhaliodd Cymdeithas yr Iaith gyfres o ralïau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu o blaid yr iaith ac i ddiogelu cymunedau Cymraeg, gan gynnwys un rali ar Bont Trefechan ar 2 Chwefror 2013 – union hanner canrif ers y brotest gyntaf.



Arweiniodd hynny at weithredu uniongyrchol yn erbyn y Llywodraeth a phwysau arnynt i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Yn dilyn etholiad 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth darged cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

RALI AR FAES Y STEDDFOD

2pm Dydd Iau 4ydd Awst






Gwefannau gwyb o Gymru, marchnata digidol & hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol.

cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | [@gwecambrianweb](https://twitter.com/gwecambrianweb)

CYMDEITHAS YR IAITH

COFIO CEN LLWYD



**2.30 Dydd Sadwrn, 30 Gorffennaf
Pabell y Cymdeithasau 2**

Cyfle i dalu teyrnged i waith Cen Llwyd,
gydag Angharad Tomos, Dylan Iorwerth, Dafydd Iwan,
Dewi Pws a Mererid Hopwood

**EISTEDDFOD
Ceredigion**



DIGWYDDIADAU'R GYMDEITHAS

Steddfod 2022

Taith o Drefechan i Dregaron

Dydd Sul, 31 Gorffennaf

Rhan o'r digwyddiadau i ddathlu 60 mlynedd y Gymdeithas.

Diogelwn: Sut i ddiogelu enwau Cymraeg

2.00, dydd Llun, 1 Awst, Stondin Cymdeithas yr Iaith

Simon Chandler ac eraill

Sgwrs Banel am y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig

2.00, dydd Mawrth, 2 Awst, Stondin Cymdeithas yr Iaith

Catrin Dafydd, Mabli Siriol Jones ac eraill

Rali Nid yw Cymru ar Werth (Mynnwn Ddeddf Eiddo)

2.00, dydd Iau, 4 Awst, Stondin Cymdeithas yr Iaith (+ gorymdaith i uned

Llywodraeth Cymru). Adloniant o 1.30.

Siaradwyr yn cynnwys Walis George, Cai Phillips a Meri Huws gyda Mabli Siriol Jones ac Osian Jones.

Parti pen-blwydd y Gymdeithas

4.00, dydd Iau, 4 Awst, Stondin Cymdeithas yr Iaith

Dewch i ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 60 oed mewn derbyniad caws a gwin.

Cymru rydd, Cymru werdd, Cymru Gymraeg - maniffesto Cymdeithas yr Iaith 2022

1.30, dydd Gwener, 5 Awst, Pabell y Cymdeithasau 1

Lansio gweledigaeth Cymdeithas yr Iaith ar gyfer y degawd i ddod

60 Mlynedd o Gymdeithas yr Iaith

2.00, dydd Sadwrn, 6 Awst, Maes D

Sesiwn ryngweithiol i siaradwyr newydd ddysgu am hanes y Gymdeithas a chyfle i holi'r Cadeirydd, Mabli Siriol Jones. Dan arweiniad Helen Prosser.



WWW.CYMDEITHAS.CYMRU/STEDDFOD22



www.Tregaron.cymru

**awen^{cyf.}
meirion**

*annibynnol ers hanner
can mlynedd*

- llyfrau
- cardiau
- creffttau
- disgiau
- crysau 'cowbois'
- cyflenwyr ysgolion a llyfrgelloedd
- gwasanaeth post byd-eang



25 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AG
siop@awenmeirion.cymru

01678 520658

50
1972-2022

**NWYDDAU
NEWYDD
CYFFROUS**



haf 2022

28

Nwyddau ar werth yn yr Eisteddfod

Dathlu'r 60 a nwyddau newydd eraill



Yn ogystal â'r crysau-T arbennig a ddyluniwyd gan Osian Grifford i nodi 60 mlwyddiant y Gymdeithas, a'r bathodyn pin, bydd gennym becyn arbennig o chwe cherdyn post, pob un yn cynnwys cerdd gan rai o feirdd amlycaf Cymru: Catrin Dafydd, Menna Elfyn, Mererid Hopwood, Meirion MacIntyre Huws, Aneirin Karadog a Gruffudd Owen.


Cost y pecyn: £6 yr un, neu dau becyn am £10.

Dyma un o'r cardiau post amrywiol:




Bydd y cyfan ar werth ar ein stondin ar faes yr Eisteddfod, felly galwch draw!

siop.cymdeithas.cymru



Byddwn hefyd yn gwerthu nwyddau newydd i gyd-fynd â lansiad ein maniffesto **Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg**.



Patshys crwn 'Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg': £3



Crys-T oedolion 'Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg': £20



Crys chwys oedolion 'Trwy ddulliau chwyldro': £28



GIGS STEDDFOD TREGARON

DYDD SADWRN, 30 GORFFENNAF
CANDELAS, TWMFFAT, MALI HAF, MORGAN ELWY

DYDD SUL, 31 GORFFENNAF
JULIE MURPHY A CERI RHYS MATTHEWS,
GWILYM BOWEN RHYS, CYNEFIN, MARI MATHIAS

DYDD LLUN, 1 AWST
BWNCATH, TANT, BWCA, EVE GOODMAN

DYDD MAWRTH, 2 AWST
BRAGDY'R BEIRDD A CICIO'R BAR
YN CYFLWYNO 'YN Y GORS'
DAN ARWEINIAD IFOR AP GLYN

DYDD MERCHER, 3 AWST
ADWAITH, HMS MORRIS, BITW,
ELIS DERBY

DYDD IAU, 4 AWST
THE JOY FORMIDABLE, LOS
BLANCOS, PYS MELYN, EÄDYTH

DYDD GWENER, 5 AWST
MR, YNYS, HAP A DAMWAIN,
PASTA HULL

DYDD SADWRN, 6 AWST
BREICHAU HIR, MEI GWYNEDD,
CLUSTIAU CŴN, DIENW

CLWB RYGBI TREGARON
30 GORFFENNAF - 6 AWST 2022

CYMDEITHAS.CYMRU/STEDDFOD22

